Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Drefach Felindre

**Neuadd Drefach Felindre
Llandysul
SA44 5UG**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Drefach Felindre

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Drefach Felindre |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd |
| Person(au) cofrestredig | Rosemary Mitchell |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Ffion Davies |
| Nifer y lleoedd | 10 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 2 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 5 diwrnod 9.00 – 12.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mehefin 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/10/2022 |

Mae pwyllgor rheoli newydd yn ei le ers mis Mai 2022.

Ar hyn o bryd, mae'r person â gofal yn rhedeg y lleoliad gyda chefnogaeth staff cyflenwi. Mae'r lleoliad wedi hysbysebu am swydd cynorthwydd parhaol ac yn bwriadu llenwi'r rôl hon cyn gynted â phosibl.

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi adnabod diffyg cydymffurfiaeth ddifrifol mewn perthynas â thema gofal a datblygiad, ac rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i'r darparwr.

Bydd gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cryno ar Weithredu a Gwella, fydd yn cael ei anfon ar wahân i'r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Adolygu a dyddio'r asesiadau risg

A2 Cryfhau dealltwriaeth ymarferwyr o oblygiadau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol

A3 Ehangu ar gyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg plant yn fwy systematig

A4 Mynd i'r afael â'r materion diffyg cydymffurfiaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, wrth gyrraedd, maent yn chwilio am eu henwau ar ddarn pren ac yn eu gosod ar y bwrdd hunangofrestru. Mae’r rhan fwyaf yn dechrau dod yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn magu hyder wrth ailymweld â gweithgareddau.

Ar y cyfan, mae plant yn cael cyfle i leisio barn. Maent yn gallu dewis yn hyderus p’un ai ydynt eisiau dŵr neu laeth amser byrbryd ac maent yn cael cyfle i fynegi pa ffrwythau y maent eisiau i’r ymarferwyr eu prynu ar eu cyfer. Maent yn cael rhyddid i ddewis yr hyn y maent am ei wneud yn ystod cyfnodau o chwarae rhydd. Mae’r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn mwynhau defnyddio eu dychymyg wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn chwythu dail a brigau ar goeden ddychmygol i esgus ei bod yn wyntog.

Mae bron bob un yn ymdopi â bod ar wahân am fod y cyfnodau pontio dyddiol yn cydnabod anghenion unigol yn briodol. Mae’r rhan fwyaf o’r plant hynaf yn gallu dweud pa ddiwrnod yw hi a beth yw’r tywydd a bron bob un yn canu’n frwdfrydig.

Mae mwyafrif y plant yn dechrau rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion ac yn cwblhau tasgau ochr yn ochr â’i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n llwyddiannus wrth ddychmygu coginio bwyd ar gyfer y doliau ac yn cydweithredu’n dda amser cylch. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau â’u cyfoedion ac yn datblygu eu medrau cymdeithasu yn dda. Maent yn cymryd eu tro a dweud diolch yn gwrtais. Amser cylch, mae bron bob plentyn yn cael cyfle i ddechrau mynegi eu hemosiynau trwy osod eu henwau yng nghwmwl Mr Trist neu Mr Hapus ar y bwrdd hunangofrestru. Maent hefyd yn mwynhau cyfateb eu teimladau â theganau meddal pwrpasol. Er enghraifft, maent yn casglu tedi Mr Hapus wrth roi eu henwau yng nghwmwl Mr Hapus ac mae rhai yn hoffi rhoi cwtsh i’r teganau.

Mae mwyafrif y plant yn dechrau dod yn hyderus ac annibynnol. Mae llawer yn gallu adnabod eu cotiau ac mae’r plant hynaf yn gallu arllwys dŵr neu laeth yn hyderus i mewn i gwpanau’r plant ifancaf. Mae Helpwr y Dydd yn dosbarthu cwpanau a phlatiau i bob plentyn ac mae’r rhan fwyaf yn eu rhoi mewn bowlen wag ar ôl iddynt orffen eu byrbryd ac yn gwaredu eu gwastraff. Maent yn mwynhau arbrofi â gwneud marciau yn annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant.

**Gofal a datblygiad:**

Mae bron bob ymarferydd yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus. Maent yn sicrhau bod bron bob plentyn yn ymgartrefu’n gyflym ac yn darparu cyfleoedd

chwarae digonol iddynt. Maent wedi meithrin perthnasoedd priodol gyda'r plant ac yn eu hadnabod yn dda.

O ddydd i ddydd, mae'r ymarferwyr yn dilyn prosesau da i gadw'r safle'n ddiogel trwy gau'r drysau a'r giatiau yn reddfol. Maent yn gweithredu prosesau tyn wrth ganiatàu ymwelwyr i'r safle ac yn sicrhau bod plant yn gadael yr adeilad yn ddiogel gyda rhiant neu ofalwr sy'n wybyddus iddynt.

Maent yn darparu cymorth cyntaf yn effeithiol ac yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn fanwl. Maent yn cadw cofrestr ac yn sicrhau eu bod yn cadw o fewn y cymarebau staffio priodol. Mae'r ymarferwyr yn diogelu'r plant a'r safle rhag tân yn effeithiol ac yn cynnal driliau tân yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod polisi amddiffyn plant effeithiol ar waith sy'n cynnwys diffiniadau o gam-drin a chamau i'w cymryd. Fodd bynnag, nid yw ymwybyddiaeth yr ymarferwyr o'r gweithdrenau yn ddigonol ac nid ydynt wedi cael yr hyfforddiant priodol. O ganlyniad nid ydynt yn gallu gweithredu'r polisi'n effeithiol.

Er bod polisi recriwtio cadarn wedi ei fabwysiadu'n ffurfiol, nid yw'r unigolyn cyfrifol yn dilyn y polisi ac nid yw wedi sicrhau bod yr holl wiriadau hanfodol wedi'u cwblhau cyn i'r ymarferwyr ddechrau gweithio yn y lleoliad. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu diweddaru'n amserol. Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac maent yn destun pryder. Rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae bron bob un o'r ymarferwyr wedi darllen y polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol ac ar y cyfan yn ei weithredu'n effeithiol gan hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg y plant. Er enghraifft, maent yn canmol plant am fedru dosbarthu ffedogau i'w gilydd yn annibynnol cyn paentio ac am rannu'r adnoddau yn gwrtais.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Mae ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth yr ymarferwyr o oblygiadau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ddigon cadarn.

Mae rhan fwyaf o ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghrafft, maent yn rhoi cyfle i bawb fod yn helpwr y dydd yn eu tro, yn gosod eu henwau, y dydd a'r tywydd ar y bwrdd hunangofrestru ac adnabod a chasglu eu cotiau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn darparu cwricwlwm priodol i ennyn diddordeb a hybu dysgu'r plant. Maent wedi dechrau cynllunio'n unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, gan gynllunio ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae gwerthfawr tu fewn a thu allan i'r adeilad. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd annibynnol i ofalu am Tedi Twt, ei wisgo, ei bwydo a mynd ag e am dro.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn cymell y plant yn effeithiol i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau a’u hannog i ddidoli a rhifo anifeiliaid y fferm yn yr ardal byd bach. Gan amlaf maent yn modelu iaith lafar yn effeithiol gan gyflwyno geirfa, patrymau iaith a chanu caneuon bywiog. Mae’r ymarferwyr yn ymestyn dealltwriaeth y plant trwy eu holi’n  fedrus wrth chwarae. Fodd bynnag, nid ydynt yn atgyfnerthu’r iaith yn ddigon cyson er mwyn trwytho iaith y plant. Yn gyffredinol, mae’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn datblygu’n briodol yn unol â’u hoed.

Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr yn cefnogi’r dysgu yn dda wrth chwarae ochr yn ochr â’r plant, gan ymyrryd yn amserol ac effeithiol i atgyfnerthu’r dysgu annibynnol. Maent yn hyrwyddo diddordebau’r plant yn llwyddiannus i ymestyn eu dychymyg a’u prosesau meddwl. Mae dulliau addysgu cadarn yr ymarferwyr yn annog y plant i gydweithredu’n bwrpasol trwy ddarparu gweithgareddau difyr, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu medrau gwybyddol da. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i greu draenogod wedi’u haddurno gyda ffyn, dail a brigau ac wrth arbrofi â symud dŵr o un cafn i’r llall yn gwbl annibynnol.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda.  Er enghraifft, maent yn eu hannog i fentro ac arbrofi â symud mewn amrywiaeth o ffurfiau ac i weini diod a bwyd i’w gilydd heb ymyrraeth. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol buddiol ar gyfer y plant fel cyfansoddi rhythmau gwahanol wrth daro sosbenni, tambwrîn a chlychau yn yr ardal allanol.  Mae’r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau, tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae hyn yn annog plant i fentro, dod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd ac i ddangos gofal a pharch at ei gilydd.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy ddathlu hanes Dewi Sant a chanmlwyddiant yr Urdd. Hefyd, maent yn dathlu amrywiaeth yn dda wrth astudio gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd priodol, diogel a glân ar gyfer y plant. At ei gilydd, maent yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cwblhau’n rheolaidd.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg sylfaenol ar waith ac yn eu diweddaru, pan fo angen. Fodd bynnag, nid ydynt yn adolygu nac yn dyddio’r dogfennau. Mae’r ymarferwyr yn gwirio’r safle bob dydd i sicrhau nad oes risgiau diangen i blant ond nid ydynt yn eu cofnodi’n gyson.

Llwydda’r arweinwyr i sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd cartrefol a phwrpasol i blant. Mae’r arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys gwaith y plant ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, mae pob plentyn ac ymarferwr wedi paentio darn jig-so eu hunain gyda’u henwau arnynt ac mae’r cyfan wedi ei blethu at ei gilydd ar y wal i greu ymdeimlad o un teulu mawr.  Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod ardaloedd dysgu pwrpasol ar gael i’r plant. Maent yn sicrhau bod ystod eang o

adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael er mwyn ategu'r dysgu a'r chwarae. Mae hynny'n rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r plant archwilio'n fedrus. Er enghraifft, mae'r cylchoedd digidol yn rhoi cyfle iddynt adnabod, ail-greu a thrafod synau gwahanol anifeiliaid. Maent hefyd yn darparu adnoddau amlddiwylliannol i ehangu dealltwiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Ceir amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd pwrpasol yn yr ardal tu allan. Mae rhain yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau rhifedd, ieithyddol a chreadigol y plant.

Mae arweinwyr wedi buddsoddi yn yr ardal tu allan yn ddiweddar sy'n cynnwys offer marcio, cornel gerddoriaeth, twba dŵr a chegin fwd.

Mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Yn sgil hynny, mae pob ardal yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu medrau annibyniaeth yn llawn.

Ceir cwpwrdd stordy pwrpasol ar gyfer cadw adnoddau a dogfennau cyfrinachol a chaiff y dogfennau hynny eu cadw'n ddiogel dan glo. Ceir bwrdd gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr ac mae hyn yn golygu eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn hwylus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gefnogi ymarferwyr i gynnig profiadau dysgu difyr sydd wedi eu seilio ar ddatblygu lles y plant o fewn awyrgylch teuluol, ysgogol a hapus.

Mae'r person â gofal yn cydweithio'n dda â'r ymarferwyr asiantaeth ac yn dechrau eu hannog i gyfrannu'n gyson i'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'n eu hannog i gofnodi syniadau ynglŷn â gweithgareddau dysgu am thema'r hydref. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder pob ymarferydd i gyfranogi'n fwyfwy rhagweithiol mewn datblygu profiadau dysgu plant ymhellach.

Mae'r pwyllgor rheoli newydd yn gefnogol ac mae ganddynt weithdrefnau hunanwerthuso addas ar waith sy'n amlinellu blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer datblygu'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gynyddol lwyddiannus wrth roi'r blaenoriaethau hyn ar waith. Mae'r pwyllgor rheoli yn datblygu trefniadau priodol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu gwaith ymarferwyr, sy'n arwain at dargedau cytunedig priodol.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n briodol ac yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ymarferwyr fynychu hyfforddiant perthnasol i fodloni anghenion y plant, er enghraifft wrth sicrhau hyfforddiant cwricwlwm i wella'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o grantiau ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau pwrpasol i gefnogi ffurfiau a phrosesau newydd y cwricwlwm ac i gefnogi profiadau a dysgu'r plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n effeithiol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol â rhieni a gofalwyr. Er enghraifft, maent yn cynnal trafodaethau anffurfiol ac yn rhannu profiadau'r plant yn rheolaidd gan

ddefnyddio llythyrau a’r cyfryngau cymdeithasol. Mae cydweithio addas rhwng y lleoliad ag asiantaethau cefnogi ac athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol i ddatblygu’r ddarpariaeth yn barhaus. Mae gan y lleoliad brosesau priodol ar gyfer pontio i’r ysgol leol ar ddiwedd y flwyddyn a chyfleoedd i blant gyfarfod ag athrawon meithrin yr ysgol cyn iddynt drosglwyddo.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2022

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| 20 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl staff wedi cael gwiriadau manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; nid yw wedi sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o ddiogelu plant; nid yw wedi sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ac nid yw wedi sicrhau ei bod yn cwblhau gwiriadau addasrwydd staff cyn bod y staff yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Er mwyn diogelu'r plant yn llawn, mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod gan yr holl staff wiriadau manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd ar waith a bod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth ddigonol o ddiogelu plant. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC am newidiadau i staff a phwyllgorau. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hysbysu AGC am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol a restrir yn y rheoliadau. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| 29 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Cofnodwyd bod yr unigolyn â gofal wedi cael goruchwyliaeth am y tro cyntaf yn ei rôl ym mis Medi 2022, ar ôl cael ei hysbysu am yr arolygiad ar y cyd. Nid yw safon y cyfarfod goruchwylio yn effeithiol – ni wnaethant drafod hyfforddiant gorfodol. Roedd sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth o ddiogelu yn argymhelliad a wnaed yn yr arolygiad diwethaf yn 2019. Fodd bynnag, dyddiad yr hyfforddiant Amddiffyn Plant diwethaf yr oedd yr unigolyn â gofal wedi'i gwblhau oedd 2016. Mae hi wedi bod yn ei swydd fel unigolyn â gofal ers mis Medi 2020 (roedd yn ddirprwy cyn hynny). Nid oedd unrhyw sôn am hyfforddiant diogelu yng  nghofnodion y cyfarfod goruchwylio. Nid oes sesiynau goruchwylio nac arfarniadau wedi'u cofnodi ar gyfer y staff eraill. Nid yw hyfforddiant gorfodol yn cael ei flaenoriaethu ychwaith. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod sesiynau goruchwylio, arfarniadau a hyfforddiant gorfodol yn cael eu cwblhau'n effeithiol. | Newydd |
| 6 | Nid yw tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr unigolyn cyfrifol yn gyfredol | Newydd |

| **Sgoriau** | **Ystyr y sgoriau** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |

| | |
|---|---|
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 05/12/2022